**Swyddfa Bost® Heol Victoria**
**Nisa Local – Archfarchnad Victoria, Uned 1 Cwrt Jiwbili,**
**Heol Victoria, Aberafan, Port Talbot, SA12 6QG.**

**Mae eich cangen newydd wedi agor:**

Yn ddiweddar gofynnom am eich sylwadau ynghylch rhai agweddau allweddol ar ein cynlluniau i adfer gwasanaeth Swyddfa'r Post yn y gymuned leol. Cawsom ddau ymateb ac agorwyd y gangen gennym ddydd Llun 5 Tachwedd 2018.

**Pwyntiau allweddol a godwyd:**

- Parcio
- Diogelwch

**Yr ymateb i'r pwyntiau allweddol:**

**Parcio**

Mae'n deg dweud fod parcio yn broblem gyffredinol mewn sawl lleoliad ar draws y DG. Rwy'n siŵr y byddwch yn deall fod y lle sydd ar gael i barcio y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol Swyddfa'r Post Cyfyngedig. Gallwn gadarnhau fod modd parcio ar y ffordd gyferbyn â Siop Nisa. Hefyd, mae modd parcio ar y ffordd yn Addison Place wrth ymyl y gangen newydd a gerllaw.

**Diogelwch**

Mae'r gweithredydd newydd a'r staff sy'n ymwneud â thrafodion Swyddfa'r Post wedi derbyn hyfforddiant llawn ac i'r safon uchel a phroffesiynol a geir yn ein holl ganghennau. Mae eu hyfforddiant yn cynnwys sut i barchu cyfrinachedd cwsmeriaid a diogelu preifatrwydd. Yn ogystal, cawsant eu hyfforddi ynghylch sut i gydymffurfio mewn sawl maes, gan gynnwys Diogelu Data a Thrafod Post a chymryd pob gofal rhesymol i ddiogelu'r post dan eu gofal hyd nes iddo gael ei ddosbarthu. Yn yr un modd, byddai canllawiau a chamau diogelwch llym ar waith er mwyn diogelu cwsmeriaid, y staff a'r arian a stoc sydd dan ofal y gweithredydd.

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau defnyddio'r Swyddfa Bost newydd.

Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.
Registered Office Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, London. EC2Y 9AQ
Post Office and the Post Office logo are registered trade marks of Post Office Limited
Cofrestwyd Swyddfa'r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540
Swyddfa Gofrestredig yn Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, Llundain. EC2Y 9AQ,
Mae Swyddfa'r Post a logo Swyddfa'r Post yn nodau masnach cofrestredig i Swyddfa'r Post Cyfyngedig